

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 6ed 2016 yn Neuadd Llandderfel. Yn bresennol oedd Gary Thomas (cadeirydd), Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Tina Davies, Gwenda Morris, Alwyn Jones, Gwynedd Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo Evans, Dewi Pritchard, Gethin Morris a Gwenda Evans.

Croesawyd Gwynedd Jones i'w gyfarfod cyntaf.

Datgan Buddiant.

Datganodd Eifion Davies ei fuddiant yng nghais cynllunio Tir yn Cynlas Fawr, Llanfor.

i) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Sedd wag ar Ward Llanfor.

Derbyniwyd llythyr o ddiddordeb gan Rita Jones, Llanfor. Cytunwyd i'w chyfethol a'i gwahodd i'r cyfarfod ym mis Chwefror.

b) Biniau Halen.

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu costau diweddaraf ar gyfer cyflenwi halen i'r biniau. Cytunwyd yn unfrydol i ymateb yn nol i gadarnhau nad oedd bwriad gan y Cyngor Cymuned i dalu na chymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth. Er nad oes dyletswydd statudol gan Gyngor Gwynedd i gyflenwi'r gwasanaeth biniau halen, roedd dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd i ofalu am briffyrdd y Sir, a thrwy hynny ofalu am y rhai sy'n defnyddio'r ffyrdd rheini yn ystod y gaeaf. Nid oedd yn deg fod trethdalwyr yn gorfod talu eilwaith i ofalu am y ffyrdd trwy godi'r Praesept a hwythau yn cael eu trethu eisoes am wasanaeth cynnal a chadw'r priffyrdd.

c) Tacluso ym mynwent Llanfor.

Trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd ar gyfer y gwaith a cytunwyd i roi'r gwaith i Gwmni Ciltalgarth. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu â Chwmni Ciltalgarth i drefnu iddynt gychwyn y gwaith ac i hysbysu'r ymgeiswyr eraill o benderfyniad y Cyngor.

ch) Twll archwilio wedi malu ar yr A494 rhwng Y Bryn, Bala a phentref Llanfor.

Cafwyd cadarnhad bod gweithlu'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ymweld â'r safle ac wedi trwsio twll archwilio.

ii) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

- i) Llythyr yn eu cynghori o'r newidiadau i ddod yn y trefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus.
- ii) Etholiadau Cyngor Cymuned 2017 - gwybodaeth am y costau a fyddai ynghlwm a'r etholiadau ym mis Mai 2017.
- iii) Bod yn Gynghorydd - Gwybodaeth am eu digwyddiadau i geisio annog aelodau o grwpiau sydd yn cael eu tangynrychioli i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr.

b) Amrywiol

- i) Cyngor Tref Y Bala – Derbyniwyd neges yn gofyn am gefnogaeth i'w cais i ymestyn y mesur 30mya ar yr A494 i gyfeiriad Y Bryn, Llanfor. Cytunwyd yn unfrydol i'w cais a gofynnwyd i'r clerch hysbysu'r Cyngor Tref a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.
- ii) Hunaniaith – Gwybodaeth am eu gweithdai i drafod diogelu'r Iaith Gymraeg.
- iii) Cyfoeth Naturiol Cymru - E-bost yn ein cynghori bod eu rhif ffôn mewn argyfwng wedi newid.
- iv) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i Gymru - E-bost yn cynghori'r Cyngor eu bod wedi cyhoeddi eu dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer.

v) Ysgol Bro Tryweryn - Gan fod cynrychiolaeth plwyf ar Lywodraethwyr yr ysgol yn rhedeg bob yn ail gyda chynghorau Llandderfel a Llanycil derbyniwyd neges yn gofyn a oedd gan y Cyngor Cymuned enw i'w gynnig. Cynigwyd enw Gethin Morris ond gan nad oedd yn bresennol gofynnwyd i'r clerwr drafod y mater gydag ef.

iii) Ceisiadau Cynllunio

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C16/1415/04/LL – Cais i ddiwygio amod 1 ynghlwm a chaniatad cynllunio blaenorol. Cae Rhif 3959, Glan yr Afon, Corwen.

C16/1352/04/HT – Hysbysiad ymlaen llaw o waith i uwchraddio cyfarpar telathrebu presennol. Tir yn Cynlas Fawr, Llanfor.

C16/1368/04/HT – Hysbysiad ymlaen llaw o waith i uwchraddio cyfarpar telathrebu presennol. Tir yn Tyddyn Ysgubor, Bethel.

NP5/63/237B - Tynnu un antena a gosod antena newydd ar bolyn presennol. Tir ger Ciltalgarth, Frongoch, Bala.

iv) Materion Ariannol.

a) Cytunwyd i dalu anfoneb Dylan Thomas (gofalwr mynwent Llandderfel).

b) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel a Croes Goch Brydeinig. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

v) Materion lleol.

Pont Sgwâr Llandderfel

Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Elwyn Edwards o'r trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru i drefnu clirio'r malurion o dan y pontydd i sicrhau bod y cartrefi gerllaw ddim yn cael eu effeithio gan lifogydd. Roedd peth o'r gwaith wedi cael ei wneud yn barod a byddai'r gweddill yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Chwefror 7fed yn Neuadd Mynach am 7.30 y.h.